



Rakesh Kumar

Teitl PhD: Cwmpïadau, Eiddilwch mewn Pobl â Dementia

Dyddiad dechrau: 01/01/2021

Dyddiad gorffen disgwylïedig: 30/12/2026

Goruchwylwyr: Yr Athro Gill Windle (Prif Oruchwylïwr), Dr. Carolien Lamers (Cyd-oruchwylïwr) a Jonathan Flinn (Cyd-oruchwylïwr)

Cyllidwr: Adran Therapïau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Fy nghefndir

Rwy'n Ffisiotherapydd Arbenigol Clinigol, yn gweithio gyda'r henoed a gyda gwasanaethau iechyd meddwl yn ardal y Gogledd Orllewin yn y Gwasanaethau Iechyd Gwladol(GIG). Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r GIG yng Ngogledd Cymru dros y 14 blynedd diwethaf. Fe wnes i fy MSc mewn Adsefydlu Ymarfer Corff ym Mrifysgol Bangor yn 2006.

Rwy'n ymwneud â gwybodaeth a chymhwyso, archwilio, ymchwil ac addysg.

Rwy'n gweithio fel gweithiwr proffesiynol gyda'r uwch ymarferwyr a chlinigwyr eraill i ddatblygu a darparu gwasanaeth clinigol o ansawdd uchel ledled Gogledd Cymru ym maes iechyd meddwl ac mewn dementia. Rwy'n ymwneud â datblygu cymwyseddau ar gyfer staff clinigol rheng flaen yn fy adran er mwyn asesu; rhesymu a thrin achosion arferol yn glinigol a nodi'r rhai ag anghenion cymhleth lle mae angen cefnogaeth. Rwy'n helpu i ddarparu rhaglen hyfforddi barhaus a phhecyn cymorth i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau priodol yn y gweithlu o fewn ein maes penodol.

Fy ymchwil

Mae dementia yn cael effaith ar ansawdd bywyd pobl hÿn ar ôl unrhyw gwmp ac mae'n gynyddol yn rhan o gyloch gwaith craidd Ffisiotherapi.

Mae fy ymchwil yn cynnwys

- Dealltwriaeth o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chwmpïadau mewn pobl â dementia
- Gwybodaeth am yr ymyriadau ymarferol i reoli ac i leihau'r risgiau
- Dealltwriaeth o pam mae atal chwmpïadau mor bwysig mewn pobl â dementia
- Gwybodaeth am ba gamau i'w cymryd os bydd pobl â dementia yn cwmpo
- Dealltwriaeth o ganlyniad swyddogaethol ar ôl torri gwddf y forddwyd a sut i wella
- Dealltwriaeth am bryd a pham y dylid rhoi gwybod am unrhyw fath o gwmp yn yr ysbyty ac yn y gymuned
- Ymwybyddiaeth o'r angen i ddysgu o bob cwmp, gan sefydlu'r ffactorau sy'n cyfrannu fel y gellir cymryd camau er mwyn lleihau'r risg yn y dyfodol.
- Gwybodaeth am effaith chwmpïadau ymhlith pobl â dementia

Manylion cyswllt

Rakesh Kumar

rkk20fgc@bangor.ac.uk /
rakesh.kumar2@wales.nhs.uk